

## Polisi Iaith Ysgolion Cyngor Ceredigion

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymrwymedig i gefnogi gweledigaeth ac uchelgais Llywodraeth Cymru i weld miliwn o bobl yn gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050 yn unol â'u 'Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg'.

Mae 'Cwricwlwm i Gymru- Cwricwlwm am Oes' yn pwysleisio'r ffaith y bydd y Gymraeg yn parhau yn orfodol hyd at 16 oed.

Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu' yn y cwricwlwm yma yn nodi'r canlynol:

“Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad hwn yn cynnig ffyrdd o fanteisio ar y cysylltiadau rhwng dysgu Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern, drwy annog plant a phobl ifanc i gymhwyso eu gwybodaeth am y ffordd y mae iaith yn gweithio yn y Gymraeg, er enghraifft, at y Saesneg neu ieithoedd tramor modern. Drwy wneud hyn, gallant ddod i ddeall strwythur ieithoedd. Mae hyn, ynghyd â gwerthfawrogiad o eiriau a'u tarddiad, yn gallu helpu plant a phobl ifanc i feithrin brwdfrydedd a diddordeb mewn iaith”.

Ar gyfer ysgolion yng Ngheredigion, mae addysgu'r Gymraeg a'r Saesneg, naill ai fel iaith gyntaf neu fel ail iaith, yn un o'r gofynion hanfodol ac sy'n adlewyrchu'r Cwricwlwm Cenedlaethol presennol.

Nod yr Awdurdod Lleol yw addysgu disgyblion i fod yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd a datblygu ar y gallu hwnnw yn ystod eu cyfnod yn yr uwchradd a hynny er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Mae'r dyhead hwn yn cydfynd â strategaeth gorfforaethol Cyngor Ceredigion.

## Ysgolion Cynradd

Mae'r Polisi Iaith hwn yn ymestyn ar draws holl ysgolion cynradd y sir a'i nod yw datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd CA2. Yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg (gweler rhestr 1 isod) y Gymraeg yw'r iaith asesu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, mae parhad i ddatblygiad medrau llafar (gwrando a siarad), darllen ac ysgrifennu Cymraeg y disgyblion ac hefyd felly eu medrau tebyg yn Saesneg. Yn yr ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf, ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg (gweler rhestr 2 isod), y Saesneg yw'r iaith asesu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2.

## Uwchradd

Disgwylir i ddisgybl sydd wedi ei asesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd CA2 (ysgolion cyfrwng Cymraeg) i barhau â'i addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector uwchradd. Bydd yn dilyn Cymraeg Iaith Gyntaf a phynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad. Y nod yw y gall y disgybl

astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf hyd at ddiwedd Blwyddyn 11. Mae ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws y cwricwlwm.

### Anghenion Addysg Arbennig/ Anghenion Dysgu Ychwanegol

Yng Ngheredigion, mae yna ymrwymiad cadarn i sicrhau fod plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysg arbennig (AAA)/ anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn derbyn cyfle cyfartal ieithyddol o safbwynt addysg ddwyieithog.

Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar gael ar gyfer cefnogi'r rhan fwyaf o'r ystod a'r amrywiaeth o AAA/ ADY. Gellir cynnig gwasanaeth i rieni a disgyblion sy'n gwbl ddwyieithog.

### Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20 Sir Ceredigion wedi ei gymeradwyo gan Llywodraeth Cymru. Mae'n gosod prif nodau'r awdurod o ran datblygu'r Gymraeg a hynny dan saith deilliant penodol.

I weld copi o'r cynllun:

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: *bydd dolen electronig yma.*

## Rhestr 1: Ysgolion Cyfrwng Cymraeg Cynradd

1	Ysgol Aberaeron
2	Ysgol Bro Sion Cwilt
3	Ysgol Cilcennin
4	Ysgol Ciliau Parc
5	Ysgol Dihewyd
6	Ysgol Felinfach
7	Ysgol Llanarth
8	Ysgol Llannon
9	Ysgol Talgarreg
10	Ysgol Craig yr Wylfa
11	Ysgol Llanfarian
12	Ysgol Llanfihangel y Creuddyn
13	Ysgol Llangwryfon
14	Ysgol Llanilar
15	Ysgol Myfenydd
16	Ysgol Penllwyn
17	Ysgol Penrhyncoch
18	Ysgol Mynach
19	Ysgol Syr John Rhys
20	Ysgol Rhydypennau
21	Ysgol Talybont
22	Ysgol Aberporth
23	Ysgol Aberteifi
24	Ysgol Beulah
25	Ysgol Cenarth
26	Ysgol Llechryd
27	Ysgol Penparc
28	Ysgol T Llew Jones
29	Ysgol Dyffryn Cledlyn
30	Ysgol y Dderi
31	Ysgol Trewen
32	Ysgol Gymraeg Aberystwyth
33	Ysgol Pontrhydfendigaid
34	Ysgol Rhos Helyg
35	Ysgol Bro Teifi
36	Ysgol Henry Richard (CS a CA2)
37	Ysgol Bro Pedr (Ffrwd Gymraeg CS a CA2)

Rhestr 2: Ysgolion Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg

1	Ysgol Comins Coch
2	Ysgol Plascrug
3	Ysgol Bro Pedr (Ffrwd Saesneg CS a CA2)
4	Ysgol Llwyn yr Eos
5	Ysgol Cei Newydd
6	Ysgol Padarn Sant